# Yr Economi Gydweithredol yng Nghymru



Co-operatives and Mutuals Wales




## Rhagarweiniad

Mae'r sectorau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru yn elfen hanfodol o ddatblygiad economaidd a chymdeithasol y wlad. Maent yn rhan allweddol o Drydydd Sector yr economi, ac yn cael eu cydnabod yn gynyddol fel rhai sy'n gallu darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol nad ydynt yn cael eu darparu gan y sectorau cyhoeddus na phreifat.
Dengys y ffigurau fod cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn cyfrannu bron i £1 biliwn mewn gwerthiannau a 7,000 o swyddi i economi Cymru. Mae'r sector yn darparu ffurf arall o berchnogaeth busnes a gall alluogi busnes a gynhelir gan deuluoedd sy'n wynebu ymddeoliad neu werthiant i barhau drwy drosi yn gwmni cydweithredol.
Cymhwysir y model cydweithredol yn llwyddiannus mewn llawer o wahanol ffyrdd. Rydym i gyd yn gyfarwydd gyda'r cwmnïau cydweithredol i ddefnyddwyr ar ein strydoedd siopa. Mae cwmnïau cydweithredol sy'n eiddo i weithwyr wedi cynyddu mewn poblogaeth dros y pum mlynedd ar hugain neu debyg diwethaf, ac maent yn dod yn fwy a mwy adnabyddus. Mae cwmnïau tai cydweithredol yn elfen sy'n mynd yn fwy a mwy pwysig o fewn marchnad dai'r DU, tra bo cwmnïau cydweithredol eilaidd neu gonsortia (lle mae pob aelod yn fusnes o'i ran ei hun) yn cynnig potensial enfawr ar gyfer datblygiad economaidd. Mae dulliau newydd eraill yn parhau i gael eu datblygu, gan gynnwys perchnogaeth gymunedol, cwmnïau cydweithredol gyda rhanddeiliaid lluosog, a Chwmni Budd Cymunedol cydweithredol.
Mae cwmnïau cydweithredol yn gweithredu ym mhob maes o'n cymdeithas a'n heconomi, gan gyflenwi nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy, proffidiol i farchnadoedd amrywiol. Yn ychwanegol, yn yr adegau mwy ansicr hyn, y sector cydfuddiannol sydd wedi profi i fod yn un y gellir dibynnu arni, oherwydd mai'r aelodau sy'n berchen ar adneuon ac asedau'r Banc Cydweithredol a'r 59 o Gymdeithasau Adeiladu yn y DU.




## Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru

Mae'r modelau cydweithredol a chydfuddiannol o berchnogaeth a rheolaeth busnes wedi eu mabwysiadu yn llwyddiannus gan dros 1,000 o fusnesau yng Nghymru er yr 1980au cynnar. Caiff perchnogaeth leol, rheolaeth ddemocrataidd a phwrpas cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol eu dwyn ynghyd mewn cymysgedd sydd wedi arfer llwyddo.

I hwyluso datblygiad y sectorau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru, mae angen cryf i godi ymwybyddiaeth yngl n â'r manteision a'r cyfleoedd y mae'r sector yn eu hwynebu.

Mae Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol yng Nghymru yn gweithio tuag at economi sy'n cynnwys busnesau masnachol a chydweithredol mewn mesur mwy cyfartal, a lle gall y sector cyhoeddus, yn arbennig drwy ei gynlluniau caffael, annog creu ac ehangu busnesau cydweithredol.

## Cwmni cydweithredol yw...

...cymdeithas annibynnol o bobl neu fusnesau wedi eu huno yn wirfoddol i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cyffredin, drwy fenter sy'n cael ei meddiannu ar y cyd a'i rheoli yn ddemocrataidd.
Seilir cwmnïau cydweithredol ar saith o egwyddorion a gytunir yn rhyngwladol:-

- Aelodaeth wirfoddol ac agored
- Rheolaeth ddemocrataidd gan yr aelodau
- Cyfraniad economaidd aelodau
- Annibyniaeth ac ymreolaeth
- Addysg, hyfforddiant a gwybodaeth
- Cydweithredu ymysg cwmnïau cydweithredol
- Pryder dros y gymuned

## Canolfan Gydweithredol Cymru

Mae Canolfan Gydweithredol Cymru wedi ei sefydlu ers dros 25 o flynyddoedd, ac mae'n ymdrin â Chymru gyfan. Dyma'r Corff Datblygu Cydweithredol mwyaf yn y DU. Mae cwmnïau cydweithredol yn rhychwantu adran eang o'r sector busnes a chymuned o gaffis bychain yn seiliedig ar y gymuned ac undebau credyd a seilir ar y gymuned, hyd at y busnesau mwy sy'n eiddo i'r gweithwyr. Mae Canolfan Gydweithredol Cymru wedi strwythuro ei hun i ganolbwyntio ar feysydd penodol:-

- Cynlluniau adfywio cymunedol fel cwmnïau cydweithredol cymunedol
- Cynlluniau cynhwysiant ariannol fel undebau credyd
- Perchnogaeth gan gyflogwyr drwy olyniaeth busnes
- Consortia cydweithredol a chwmnïau cydweithredol eilaidd



## Gwerthoedd Cydweithredol

Drwy'r DU yr economi gymdeithasol yw'r sector sy'n tyfu gyflymaf o fewn yr economi. Mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn rhan hanfodol o'r twf hwn ac yn gallu seilio eu datblygiad ar faterion allweddol:-Cyfrifoldeb Cymdeithasol – drwy ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y sectorau cyhoeddus neu breifat, gan annog cyfranogiad llawn a chynnwys gweithwyr, gan annog cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Cyflogaeth – drwy greu busnesau sy'n eiddo i weithwyr, drwy helpu busnesau sy'n eiddo i deuluoedd oroesi mewn ffurf newydd, drwy greu busnesau sy'n eiddo i'r gymuned sy'n cyfrannu at adfywio'r gymuned.
Partneriaeth – annog trefniadau gwaith ar y cyd drwy gwmnïau cydweithredol eilaidd, ac annog ffermwyr a busnesau eraill i ffurfio cwmnïau cydweithredol ar y cyd i gynhyrchwyr neu ar gyfer prynu sy'n cynyddu cyfran o'r farchnad a photensial o ran prynu.

"... mae mentrau cydweithredol yn darparu'r dull trefniadaethol lle gall cyfran sylweddol o ddynoliaeth gymryd y dasg o greu gwaith cynhyrchiol i'w ddwylo ei hun, gan oresgyn tlodi a chyflawni integreiddio cymdeithasol ..."

*Kofi Annan, cyn Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig*

## Y Darlun Mwy

Mae menter gydweithredol yn rym pwysig ar gyfer datblygiad economaidd a chymdeithasol cynaliadwy nid yn unig yng Nghymru ond dros y byd.

Mae Co-operativesUK www.cooperativesuk.coop yn cyfrifo bod gan gwmnïau cydweithredol y DU drosiant o £27.4 biliwn ac yn cyflogi 237,000 o bobl.
Cyfrifa Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu www.bsa.org.uk fod gan yr 59 o Gymdeithasau sy'n aelodau yn y DU drosiant o £6.3 biliwn ac yn cyflogi 51,578 o staff.
Amcangyfrifa'r Gynghrair Gydweithredol Ryngwladol www.ica.coop ar lefel byd-eang, fod 800 miliwn o bobl yn aelodau o gwmnïau cydweithredol, sydd gyda'i gilydd yn cyflogi 100 miliwn o bobl.
Yn 2007 canfu arolwg o fentrau cydweithredol a chydfuddiannol ledled y byd www.global300.coop fod y 300 uchaf o fusnesau o'r fath yn unig gyda'i gilydd yn cyfateb mewn graddfa i ddegfed economi fwyaf y byd, gyda throsiant cyfun o bron i $1 triliwn.

## Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol yng Nghymru

| Math | Nifer | Trosiant (£m) | Gweithwyr | Aelodau |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 26 | 119 | 96 | 2,546 |
| Clwb a Sefydliad | 9 | 2 | d/g | d/g |
| Ariannol | 2 | 98 | 398 | d/g |
| Undebau Credyd | 32 | 2 | 80 | 36,137 |
| Tai | 26 | 0.3 | n/a | d/g |
| Arall | 91 | 112 | 454 | d/g |
| Adwerthu | 17 | 501 | 5,039 | d/g |
| Cymdeithasau Adeiladu | 3 | 114 | 920 | 479,687 |
| Cyfanswm | 206 | 948 | 6,987 | 518,370 |

## Mwy nag Elw

Mae cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yn wahanol i fusnesau eraill. Fe'u trefnir i fodloni anghenion eu perchnogion-aelodau yn unig. Yn ogystal â llwyddiant ariannol maent yn gweld y modd y maent yn cynnal eu busnes fel rhywbeth sy'n cyflawni pwrpas ynddo'i hun: dod â budd i'w haelodau, y cymunedau a wasanaethant, a lles eu gweithwyr.

**Mae Y Grŵp Cydweithredol y cwmni cydweithredol defnyddwyr mwyaf yn y byd, yn gweithredu siopau ar draws Cymru. Mae'r grŵp hefyd yn berchen ar Fanc y Co-operative, Co-operative Insurance, Smile, Co-operative Pharmacy, Co-operative Travel a Co-operative Funeralcare. Mae'n gweithio gyda'i aelodau drwy bwyllgorau lleol yn ogystal â darparu fersiwn modern o'r 'difi' drwy ei gynllun cerdyn aelodaeth.**








**Mae Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyf.**
yn gwmni cydweithredol amaethyddol a reolir gan ffermwyr gyda rhyw 7,200 o aelodau. Mae ffermio da byw o bwysigrwydd masnachol sylweddol i'r Gymru wledig gyda gwarchod y fferm deuluol yn hanfodol i gynnal y diwylliant Cymreig a harddwch cefn gwlad a thirlun Cymru. Mae cynaliadwyedd ffermio da byw Cymru yn dibynnu ar farchnata allbynnau ffermio da byw.

Mae Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyf. yn enghraifft ardderchog o gydweithrediad amaethyddol ar waith gyda ffermwyr yn cael llwyddiant sylweddol o weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo a marchnata eu cynnyrch sy'n cael ei frandio fel Cig Oen a Chig Eidion Cymru, sy'n rhoi ymreolaeth ac annibyniaeth i ffermwyr a thrwy hynny reolaeth ar eu tynged eu hunain.

**DLT Training Cyf.** Mae DLT yn darparu gwasanaethau hyfforddiant diwydiannol mewn logisteg nwyddau a thrin deunyddiau i filoedd o bobl y flwyddyn ar draws ardal De Cymru, ac ynghyd â'u hyfforddiant ar gyfer Gweithredwyr Offer Adeiladu, cynhyrchwyd trosiant gwerth dros £921,000 yn 2005.

Mae gwreiddiau DLT yn mynd yn ôl i 1968 pan sefydlodd y National Freight Company adran hyfforddiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ffurfiwyd y cwmni ar ôl iddo gael ei brynu gan reolwyr British Road Services (BRS) ym 1992. Yn 2006, pan ddymunai'r perchnogion blaenorol ymddeol, rhoddodd un ar ddeg o weithwyr DLT Training Ltd eu cynilion at ei gilydd a mentro i ddod yn gyfarwyddwyr newydd y cwmni mewn cwmni cydweithredol oedd yn eiddo i'r gweithwyr.

**Dylan's Den;** Pan fu i grŵp o bump o famau yn Ysgol Gynradd Treorci ddarganfod fod y clwb ar ôl ysgol yn dod i ben, penderfynent ddatrys y broblem drwy sefydlu eu busnes eu hunain, sef Dylan's Den.

Gyda chymorth gan Ganolfan Gydweithredol Cymru, penderfynodd y pum mam fynd amdani a ffurfio eu cydweithfa eu hunain, gan gadw'r staff oedd yno'n barod. Mae'r busnes yn darparu gwasanaeth hanfodol i rieni sy'n gweithio, ac mae'n agored o 3.20 hyd at 5.15pm. Mae'r pum aelod sefydlol erbyn hyn yn gyfarwyddwyr, ac mae yna gynlluniau i recriwtio mwy o rieni yn ogystal â'r holl staff fel aelodau.

Contact us:- www.wales.coop email:- alex@alex-bird.com tel:- 07914 762 546

Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru yw'r corff cynrychioliadol (Cyngor Cydweithredol Rhanbarthol) ar gyfer mudiad Cydweithredol ehangach yng Nghymru, a braich Genedlaethol/Ranbarthol Co-operativesUK, sy'n brif gorff ar gyfer pob mathau o gwmnïau cydweithredol yn y DU, ac mae'n Gymdeithas Ddiwydiannola Darbodus a reolir yn ddemocrataidd gan ei haelodau. Mae aelodau Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru yn cynnwys: y Co-operative Group, Banc y Co-operative, Sefydliad Ymchwil i Gwmnïau Cydweithredol (UWIC), Canolfan Gydweithredol Cymru, y Blaid Gydweithredol, ac ABCUL. Cefnogir Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru yn ariannol gan y Ganolfan Mentrau Cydweithredol.

Co-operatives Wales and Mutuals